

Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig Campaign for the Protection of Rural Wales



Disgrifiad Swydd: Prif Weithredwr (Rhan Amser: 3 diwrnod yr wythnos)

Cyflog £50,000 (pro rata)

Elusen ymgyrchu genedlaethol yw YDCW a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 yn ddiweddar (cprw.org.uk). Mae'n ceisio diogelu ac amddiffyn cefn gwlad Cymru yn ystyr ehangaf yr ymadrodd hwnnw – ei thirwedd, ei chynefinoedd, ei chymeriad ffisegol, ei nodweddion diwylliannol a'i nodweddion hanesyddol - wrth hyrwyddo arferion datblygiadol da a chynrychioli barn cymunedau gwledig ar eu hamgylchedd lleol. Ar hyn o bryd mae ganddi gefnogaeth oddeutu 1,200 o aelodau sy'n tanysgrifio sydd wedi'u trefnu yn 14 Cangen leol a gynrychiolir ar ei Gyngor llywodraethu cenedlaethol. Mae'r Ymddiriedolwyr sydd wedi'u hethol i'w Phwyllgor Gwaith Cenedlaethol (NEC) yn gyfrifol am ei gwaith manwl. Mae ei phrif swyddfa mewn lleoliad canolog sef Tŷ Gwyn, 31 Stryd Fawr, Y Trallwng, SY21 7YD ac mae un Rheolwr Gweithrediadau amser-llawn profiadol iawn mewn swydd.

Cyflwyniad

Byddai'r Prif Weithredwr (CE) yn meddu ar swydd bwysig yn yr elusen hirsefydlog hon, ac mae'n rhaid iddo/iddi rannu penderfyniad yr Ymddiriedolwyr a'r Canghennau i'w chynnal a'i datblygu. O ran contract, bydd y CE yn atebol i'r Pwyllgor Gweithredol Cenedlaethol ond o ddydd i ddydd bydd yn atebol i'r Cadeirydd Cenedlaethol neu Ymddiriedolwr arall a enwebwyd. Fel arfer, bydd y CE yn gweithio o adref, ond mae'n rhaid iddo/iddi fynychu'r Brif Swyddfa pan fo angen, a gweithio'n agos ag Ymddiriedolwyr, staff eraill a changhennau pan fo angen. Bydd angen i'r CE gymryd rhan mewn trafodaethau ac, os bydd angen, mynychu cyfarfodydd â Gweinidogion a Swyddogion Llywodraeth Cymru, sefydliadau sy'n bartneriaid a sefydliadau eraill yng Nghaerdydd neu mewn mannau eraill.

RHAN UN - DISGRIFIAD SWYDD

Meysydd Gwaith Allweddol a thasgau perthnasol

1 Rheolaeth y Sefydliad

Sicrhau bod gwaith YDCW yn cael ei ddatblygu yn unol ag Amcanion elusennol y sefydliad, ei nodau presennol, cyfraith elusennau a chanllawiau ymarfer gorau. Bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau llywodraethu'r elusen, y llawlyfr staff a pholisïau a chanllawiau'r elusen, a gweithio yn unol â'r rhain.

Meithrin perthnasau ag asiantaethau ariannu presennol a phosibl a gwneud pob ymdrech i adeiladu sylfaen aelodaeth YDCW.

Paratoi dogfennau a phapurau craidd, neu oruchwylio'r gwaith o'u paratoi, gan gynnwys yr adroddiad blynyddol, cyfrifon blynyddol, papurau pwyllgor, agendâu a chofnodion mewn cydweithrediad ag aelodau o staff perthnasol neu aelodau'r NEC, lle bo hynny'n briodol. Cynhyrchu datganiadau i'r wasg a datganiadau polisi, neu oruchwylio'r gwaith o'u cynhyrchu.

Cynorthwyo'r Trysorydd a'r Cadeirydd Cenedlaethol i ddrafftio cyllideb flynyddol i'r NEC ei hystyried.

Sicrhau bod cyllideb refeniw YDCW yn cael ei rheoli'n unol â phenderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol Cenedlaethol (NEC).

Adrodd i'r Cadeirydd Cenedlaethol ac aelodau'r NEC, a chadw mewn cysylltiad agos â hwy, yn enwedig o ran cyfarfodydd rheolaidd ac arbennig. Cysylltu ag Is-Bwyllgorau'r NEC, y Rheolwr Gweithrediadau ac unrhyw aelod o staff neu wirfoddolwyr eraill a benodwyd, sefydliadau sy'n bartneriaid a swyddogion Canghennau.

Goruchwylio gwaith ymgynghorwyr neu gynghorwyr wrth gefn, yn enwedig The Funding Centre (Caerdydd).

2 Datblygiad y Sefydliad

Cynorthwyo'r NEC wrth lunio a gweithredu cynllun datblygu sefydliadol.

Goruchwylio darpariaeth cymorth y Brif Swyddfa ar gyfer gwaith y Canghennau, ymweld â hwy, annog eu datblygiad, galluogi cydweithio rhyngddynt, hyrwyddo ffurfio a datblygu canghennau mewn rhannau o Gymru sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, ac annog aelodaeth y tu allan i'r wlad.

3 Polisi ac Ymgyrchoedd

Ymchwilio a datblygu polisiâu ac ymgyrchoedd cenedlaethol a chynghori'r NEC arnynt.

Monitro deunydd perthnasol Llywodraeth Cymru a deunydd cenedlaethol arall a chynghori'r NEC ar ymatebion a chymau gweithredu. Arwain ar ymgyrchoedd cenedlaethol y mae'r NEC wedi'u hawdurdodi ac ennyn a chydlynu unrhyw gymorth arbenigol.

Cynghori pwyllgorau Cangen YDCW ar faterion perthnasol a helpu i lywio eu hymateb i gynigion datblygu a diwygio polisi.

4 Cysylltiadau Cyhoeddus

Codi proffil YDCW ym mhob maes perthnasol, a manteisio ar bob cyfle i wneud cyfraniadau at gyfryngau ysgrifenedig, llafar a gweledol, a chynorthwyo Canghennau ac aelodau YDCW i wneud yr un peth. Mae hon yn dasg sylfaenol.

Lobïo ar bolisiâu ac ymgyrchoedd YDCW yn y Senedd Cenedlaethol ac mewn mannau eraill.

Gweithredu fel prif lefarydd YDCW yn y cyfryngau newyddion ar y cyd â'r Rheolwr Gweithrediadau, Canghennau ac aelodau:

Cynnal rhestr o Gysylltiadau yn y Cyfryngau ar lefel genedlaethol a Changen, ac ehangu'r rhestr hon

Cynnal, neu oruchwylio, gwefan YDCW fel cyfrwng allweddol ar gyfer hyrwyddo, hysbysebu a chadw cofnod o weithgareddau YDCW.

Bod yn bennaf gyfrifol am olygu a chynhyrchu'r cylchgrawn Cymru Wledig ddwywaith y flwyddyn, ein cyhoeddiad swyddogol, a'r e-Fwletinau misol.

5 Cydweithio

Ysgogi a goruchwylio'r gwaith o feithrin a chynnal perthnasau cynhyrchiol â sefydliadau eraill.

Adeiladu ar gynrychiolaeth bresennol YDCW ar sefydliadau cynrychioliadol eraill – fel Cyswllt Amgylchedd Cymru, y Cynghrair dros Dirluniau Dynodedig Cymru, Rhaglen Effaith Weledol y Grid Cenedlaethol ac eraill.

Adolygu a datblygu dulliau addas o weithio ar y cyd yn ffurfiol neu'n anffurfiol â chyrrff eraill yng Nghymru, ar lefel genedlaethol a mwy lleol

6 Dyletswyddau eraill

Cyflawni unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill y bydd y NEC yn gofyn amdanynt yn rhesymol.

RHAN DAU – Er gwybodaeth i ymgeiswyr

Beth fyddem yn ei ddisgwyl gan ymgeisydd llwyddiannus?

Er mwyn cyflawni eich rôl a'r safonau a ddisgwylir, bydd angen ymrwymiad brwdfrydig i werthoedd a pholisïau YDCW a'r rhan fwyaf o'r cymwysterau, sgiliau a phrofiad canlynol, os nad pob un.

- Cymhwyster graddedig neu gyfwerth sy'n ymwneud â chynllunio, defnydd tir gwledig, astudiaethau amgylcheddol neu dirwedd, (â phwyslais arbennig ar ddatblygu polisïau) a/neu hanes profedig yn y meysydd hyn.
- Gwybodaeth am y sectorau elusen a gwirfoddol a dealltwriaeth o sut maent yn rhyngweithio â gwaith YDCW a gwaith rhai eraill sy'n gwneud penderfyniadau.
- Dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar gefn gwlad a chymunedau Cymru.
- Gwybodaeth ymarferol am brosesau cynllunio yng Nghymru a phrofiad o waith eiriolaeth
- Parodrwydd i fynd i Gaerdydd yn rheolaidd a theithio o amgylch Cymru gan ddefnyddio eich cerbyd eich hun, neu drafnidiaeth gyhoeddus pan fo'n rhesymol ac yn bosibl.
- Cymhwysedd mewn TG a brwdfrydedd dros ddatrysiadau sy'n seiliedig ar TG

Priodoleddau personol

- Gallu meddwl yn wrthrychol a chyfleu materion cymhleth i bobl eraill yn syml ac yn glir.
- Gwydnwch i oresgyn heriau anodd â'r ddawn a'r penderfyniad i wneud i bethau ddigwydd, yn aml ag adnoddau cyfyngedig.
- Digon o brofiad a brwdfrydedd i ddefnyddio eich sgiliau rhyngpersonol darbwylol i feithrin perthnasau adeiladol a dylanwadol ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Gallu cyfathrebu'n hyderus mewn cyfryngau ysgrifenedig a llafar: Byddai'r Gymraeg yn fantais.
- Hunan-sicrwydd a chymhelliad i gynrychioli YDCW yn y cyfryngau ac yn gyhoeddus.
- Gallu gweithio'n annibynnol ar leoliad Prif Swyddfa YDCW pan fo angen, ynghyd â'r hyblygrwydd i weithio'n adeiladol ag aelodau a swyddogion allweddol

[Oherwydd natur y swydd hon ac yn unol â pholisi YDCW i annog ymarferion gwaith cynaliadwy, mae gweithio o'ch cartref yn bosibl yn amodol ar gytuno ar drefniadau addas â'r NEC ynghyd â rhaglen argaeledd yn y Brif Swyddfa].

Beth fyddwn ni'n ei gynnig yn gyfnewid am hyn?

- Cyflog o £50,000 y flwyddyn pro rata, h.y. £30,000 y flwyddyn ynghyd ag unrhyw dreuliau cymeradwy sy'n codi wrth gyflawni eich dyletswyddau.
- Trefniant gweithio hyblyg rhan-amser (sy'n cyfateb i 3 diwrnod yr wythnos) am gyfnod cychwynnol o dair blynedd. Bydd cyfnod prawf o chwe mis yn destun i adolygiad wedi hynny.
- Mae YDCW yn gwerthfawrogi ei bod yn disgwyl amrywiaeth eang o alluoedd yn y crynodeb hwn o gyfrifoldebau a thasgau, ond mae'n pwysleisio bod gan yr elusen (yn enwedig ymhlith swyddogion y NEC a'r Canghennau) gronfa o dalent a phrofiad o fewn ei haelodaeth, a fydd bob amser ar gael i helpu i gario'r baich.

Gallwch lawrlwytho ffurflenni cais o www.cprw.org.uk neu drwy ofyn i Carys Matthews, Rheolwr Gweithrediadau ar 01938 552525 neu carys@cprwmail.org.uk

Dylech ddychwelyd ceisiadau wedi'u cwblhau i Brif Swyddfa YDCW yn y Trallwng, naill ai drwy e-bost neu drwy'r post.

Bydd ymgeiswyr addas yn cael cyfweiliad yn y Trallwng.

Os bydd angen manylion pellach arnoch, cysylltwch â Carys Matthews, fel uchod

Cyfle cyfartal

Nod YDCW yw mynd i'r afael â chyfle cyfartal ym mhob agwedd ar ei gwaith.